

## **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021.

**Eluned Morgan AS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

30 Tachwedd 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae amrywiolyn o COVID-19, a elwir yn Omicron ac sy'n peri pryder mawr, wedi ei ganfod mewn nifer o wledydd. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi ei ddynodi'n amrywiolyn sy'n peri pryder oherwydd y nifer fawr o fwtaniadau, y mae rhai ohonynt yn peri pryder.

O ganlyniad i asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn hwn, bydd Llywodraeth y DU yn newid y gofynion ar gyfer pob teithiwr sydd wedi'i frechu'n llawn sy'n dod i mewn i'r DU.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i sicrhau cysondeb yng Nghymru â'r sefyllfa yn Lloegr, drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Dileu'r opsiwn o ddefnyddio dyfeisiau llif unffordd ar gyfer profion diwrnod 2 i bob teithiwr sydd wedi'i frechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt yn 'rhestr goch'.
- Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch' hunanyngysu o'r adeg y byddant yn cyrraedd hyd nes eu bod yn cael canlyniad negatiff o'u prawf PCR diwrnod 2.

Bydd hyn yn golygu y bydd angen i deithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt yn 'rhestr goch' hunanyngysu hyd nes eu bod cael prawf PCR diwrnod 2 ac yn cael canlyniad negatiff. Os byddant yn cael canlyniad positif, bydd angen iddynt barhau i hunanyngysu yn unol â'r gofynion ynysu domestig a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiad Coronafeirws) (Rhif 5)(Cymru) 2020.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.